**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JJ-2099-20

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Prif Weithredwyr Awdurdodau Parc Cenedlaethol

7 Gorffenaf 2020

Annwyl Gyfeillion,

Pandemig y Coronafeirws yw'r argyfwng mwyaf sydd wedi wynebu'r ddynoliaeth o fewn cof ac mae'n gwbl briodol mai rôl gyntaf y Llywodraeth oedd diogelu iechyd a bywoliaeth ein dinasyddion. Dros y misoedd diwethaf hyn, rydym wedi cyflawni llawer drwy gydweithio. Rhaid inni ddal ein gafael ar y cydweithio hwnnw ac adeiladu arno wrth inni fynd ati i sicrhau adferiad.

Gwyddwn eisoes fod yn pandemig wedi cael yr effaith fwyaf ar y bobl hynny yn ein cymunedau nad oes ganddynt fawr o ddim, gan ddwysáu anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Wrth inni weithredu yn y dyfodol i sicrhau adferiad, rhaid inni ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn, sydd wedi bodoli ers tro byd, drwy fabwysiadu ffordd o weithio a fydd yn seiliedig ar werthoedd ac yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae rhai o'r newidiadau yr ydym wedi'u gweld dros y misoedd diwethaf wedi bod yn rhai buddiol. Mae'n hamgylchedd naturiol wedi gwella, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi lleihau ac ansawdd yr aer wedi gwella, mae pobl wedi bod yn dibynnu mwy ar deithio llesol er mwyn manteisio ar wasanaethau lleol, ac maent wedi llwyddo i wella'u cydbwysedd bywyd a gwaith. Mae'r newidiadau hyn oll wedi bod yn rhai cadarnhaol iawn. Ychydig dros flwyddyn yn ôl, gwnaeth Llywodraeth Cymru a llawer o awdurdodau lleol ddatgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd. Mae'r pandemig hwn wedi dangos yn gwbl glir ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd a natur ac mai dim ond ychydig o amser sydd gennym i newid ein ffordd o fyw er mwyn diogelu'r amgylchedd a'r ddynoliaeth rhag canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a cholli cynefinoedd a rhywogaethau. Rhaid inni fynd ati o'r newydd hefyd i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â digartrefedd, i ddarparu rhagor o dai cymdeithasol a gwaith teg er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd.

Mae'r system gynllunio'n gwbl ganolog os ydym am greu dyfodol gwell i Gymru, ac mae'n hanfodol bod pob lefel o lywodraeth yn sicrhau bod cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'n gwella lles pobl ac yn cryfhau'r amgylchedd. Rwy'n gwbl bendant fy marn bod yn rhaid inni beidio ag aberthu egwyddorion datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd drwy fynd ar drywydd adferiad economaidd costied a gostio. Cynlluniau datblygu cyfredol a hyblyg yw conglfaen

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ein system gynllunio. Mae'r argyfwng presennol wedi cryfhau, yn hytrach na lleihau'n hymrwymiad i system gynllunio sy'n cael ei harwain gan gynlluniau.

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**
Rhoddwyd y gorau dros dro i'r gwaith o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) pan fabwysiadodd y Senedd weithdrefnau brys. Nodir yng Nghynllun Parhad y Prif Weinidog fod y FfDC yn flaenoriaeth i'w gwblhau cyn etholiad nesaf y Senedd. Bydd yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd at ddibenion craffu yn hwyrach eleni ac yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2021. Mae'r cyfleoedd a'r heriau y bwriedid i'r FfDC fynd i'r afael â nhw yr un mor ddilys heddiw. Mae mwy o frys nag erioed inni fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau sydd i'w gweld mewn meysydd megis datgarboneiddio a threchu anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd. Bydd y FfDC a gyflwynir gerbron y Senedd yn ymdrin yn fanylach â chynllunio rhanbarthol, a fydd yn cynnwys mabwysiadu model 4 rhanbarth a argymhellwyd gan lawer yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd. Bydd y polisïau rhanbarthol yn y FfDC yn fframwaith cadarn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

**Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau)**
Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi dangos pa mor fanteisiol yw gweithio'n rhanbarthol ar faterion cymhleth drwy gyrff fel fforymau lleol Cymru Gydnerth. Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd,. a disgwylir iddo ddod yn gyfraith yn gynnar yn 2021. Bydd y Bil yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydweithio rhanbarthol drwy sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy bennu gofyniad i ddarparu cynlluniau datblygu strategol.

Bydd yn rhaid wrth gynlluniau datblygu strategol er mwyn rhoi'r FfDC ar waith a'n helpu i sicrhau adferiad ar ôl y pandemig, a hynny oherwydd bod llawer o'r materion y mae taer angen mynd i'r afael â nhw yn croesi ffiniau awdurdodau lleol. Mae'r pandemig wedi rhoi straen aruthrol ar y pwrs cyhoeddus ar ôl degawd o gyni ac mae'n bosibl ein bod yn wynebu dirwasgiad a fydd o leiaf cyn ddyfned â'r un a welwyd yn gynnar yn y 1980au. Bydd hynny'n rhoi mwy o straen ar awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi gweld rhai o'r toriadau dyfnaf a welwyd ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n debygol hefyd y bydd gan yr awdurdodau cynllunio lleol lai o incwm ffioedd yn y dyfodol oherwydd y bydd llai o waith adeiladu. Yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r awdurdodau lleol feddwl yn strategol am y ffordd orau o ddefnyddio'u hadnoddau, ac rwy'n eich annog yn gryf i fynd ati o'r newydd i ystyried cyfleoedd i gydweithio ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac ar ddarparu gwasanaethau cynllunio yn fwy cyffredinol.

**Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau)**
Rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y goblygiadau i CDLlau sydd wrthi'n cael eu hadolygu neu eu rhoi ar waith. Mae safbwyntiau sy'n bodoli ers tro, a pholisïau ar faterion sy'n cynnwys trafnidiaeth, datblygu economaidd, tai, adfywio a rôl canol trefi, yn ogystal â phwysigrwydd seilwaith gwyrdd, wedi cael cryn sylw yn ddiweddar. Rhaid inni feddwl mewn ffordd greadigol a gwahanol er mwyn inni fedru hyrwyddo adferiad y gellir ei gynnal ac a fydd yn rhoi lle canolog i bobl a lleoedd.

Mae CDLlau yn ddogfennau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. O ganlyniad i'r pandemig, a'r dirywiad yn yr economi sydd wedi dod i'w ganlyn, mae'n debyg bod llawer o'r dystiolaeth sy'n sail i'r CDLlau wedi dyddio. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos tystiolaeth economaidd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â meysydd megis yr angen am dai cymdeithasol a thai ar gyfer y farchnad, hyfywedd, rhagolygon economaidd a modelu trafnidiaeth. Os yw CDLlau wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac os nad ydynt wedi cael eu cyflwyno eto i'w harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, dylid asesu'r sylfaen dystiolaeth, y strategaeth a'r polisïau o ran pa mor sensitif ydynt i ganlyniadau'r pandemig. Dylech ddod i gasgliadau cadarn am yr angen am dystiolaeth newydd ac unrhyw newidiadau i'r strategaeth a pholisïau yn sgil hynny cyn ichi fwrw ymlaen i baratoi'r cynllun.

Dylech gyflwyno’r asesiad i Lywodraeth Cymru ar yr un pryd â cheisiadau i estyn Cytundebau Darparu (CDau). Cydnabyddir y bydd hynny’n arwain at rywfaint o oedi yn y tymor byr i’r gwaith o baratoi’r cynllun. Bydd, er hynny, yn golygu y bydd llai o oedi yn ystod camau diweddarach y gwaith hwnnw, a bod llai o bosibilrwydd y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ddiffygiol pan gaiff ei archwilio. Os oes ymgynghoriad cyhoeddus wrthi’n cael ei gynnal ar y cynllun (y strategaeth a ffefrir neu’r cynllun sydd wedi'i adneuo) ar hyn o bryd, dylech ddod â’r ymgynghoriad hwnnw i ben a dechrau o’r newydd unwaith y bydd yr asesiad wedi’i gwblhau a chytundeb cyflawni newydd wedi’i gymeradwyo.

Rwy’n sylweddoli bod nifer o CDLlau yn dod at ddiwedd eu hoes yn 2021 a 2022 ac rwy’n ymwybodol hefyd am oblygiadau’r ddeddfwriaeth ar ddyddiadau dod i ben i system sy’n cael ei harwain gan gynlluniau. Byddaf, felly, yn parhau i ystyried cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod CDLlau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes yn cael cadw statws cynllun datblygu at ddibenion gwneud penderfyniadau. O ailedrych ar y dystiolaeth gyfredol a pharhau i ddatblygu’r cynllun ar sail strategaeth a pholisïau priodol, bydd y rhan fwyaf o’r CDLlau yn gallu cyrraedd camau olaf y broses cyn gynted â phosibl, gan ganiatáu ichi wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gyfredol.

Os yw ymgyngoriadau wedi dod i ben neu os yw ailedrych ar y dystiolaeth, y strategaeth a’r polisïau wedi arwain at oedi wrth baratoi CDLlau, gan olygu na allant gadw at yr amserlen y cytunwyd arni yn y gorffennol, bydd angen cytundeb cyflawni diwygiedig. Mae’r Prif Gynllunydd wedi cael ei awdurdodi i gytuno ar gytundebau cyflawni diwygiedig. Mae hynny’n golygu y byddwn yn gallu cytuno cyn gynted â phosibl ar geisiadau am gytundebau cyflawni diwygiedig.

Un o elfennau allweddol cytundeb cyflawni yw’r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) sy’n nodi pwy, pryd a sut y bydd cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn cael eu cynnwys wrth i’r ACLlau fynd ati i baratoi cynlluniau. Yn achos CDLlau sydd wrthi’n cael eu paratoi eisoes, bydd cynllun cyflawni a gymeradwywyd ac sy’n amlinellu’r trefniadau ar gael ar eu cyfer. Rhaid paratoi CDLlau yn unol â’r cytundeb cyflawni a’r CCC. Gan fod llawer o adeiladau cyhoeddus ynghau dros dro, gan nad yw rhanddeiliaid yn gallu mynd i ddigwyddiadau ymgynghori, ac oherwydd bod gofyn cadw pellter cymdeithasol, nid oes modd cydymffurfio â CCCau sy’n bodoli eisoes. O’r herwydd, bydd yn rhaid addasu’r CCC yng ngoleuni cyngor diweddaraf y Llywodraeth a’r egwyddorion cadw pellter cymdeithasol er mwyn cael bwrw ymlaen â’r gwaith o baratoi’r cynllun.

Mae rheoliad 9(6) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn dweud nad oes angen i ACLl gydymffurfio â gofyniad penodol yn ei CCC os oes ganddo sail resymol dros gredu nad yw peidio â chydymffurfio â’r gofyniad hwnnw yn debygol o fod yn andwyol i gyfleoedd unrhyw unigolyn wrth i swyddogaethau’r ACLl gael eu harfer o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae’r feirws Covid-19 yn cael ei ystyried yn sail resymol, ar yr amod eich bod yn gwneud trefniadau eraill i gynnwys pobl a’ch bod yn rhoi gwybod am y trefniadau hynny i bawb sydd â diddordeb yn y mater. Rhaid ystyried yn ofalus sut y gallai fod angen mynd ati yn y tymor byr i addasu’r trefniadau ar gyfer cynnwys pobl, wrth ichi gyflwyno cytundeb cyflawni a CCC diwygiedig. Dyma rai o’r ffyrdd posibl o wneud hynny:

- Ymgynghori mewn lleoliadau eraill lle mae mwy o le, i ddarparu ar gyfer y rheoliadau ar gadw pellter cymdeithasol
- Gwneud trefniadau ymlaen llaw i gynnal sesiynau briffio unigol fel y bo llai o randdeiliaid yn bresennol ar unrhyw adeg benodol
- Estyn y cyfnod ymgynghori er mwyn i randdeiliaid gael bod yn rhan o’r broses, gan wneud hynny ar gyfer mathau penodol o ddigwyddiadau a thu hwnt i’r cyfnod statudol o 6 wythnos

- Defnyddio mwy ar offer technolegol ar y we, megis cyflwyniadau electronig am y materion allweddol, clipiau fideo byr, rhannu gwybodaeth drwy gofau bach USB etc.
- Ystyried sut y mae ailagor llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn cynnig digon o ffyrdd i rannu gwybodaeth, yn enwedig mewn cymunedau mwy gwledig. Os nad oes cynifer o opsiynau ar gael, a ellir dod o hyd i leoliadau eraill ac a oes ffyrdd effeithiol o roi gwybod i'r cymunedau lleol amdanynt?
- Rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol i unigolion a rhanddeiliad eraill gan ddefnyddio dulliau electronig neu, os nad oes modd gwneud hynny oherwydd nad oes ganddynt sgiliau a chyfarpar digidol, drwy ddarparu copïau caled.
- Defnyddio technegau cyfranogi megis cynulliadau dinasyddion.

Dim ond rhai o'r enghreifftiau sydd i'w gweld uchod. Maent yn dangos sut y gellir mabwysiadu egwyddorion a ffyrdd gwahanol o gynnwys pobl er mwyn parhau â'r gwaith o baratoi cynlluniau. Nid oes angen ymgynghori am CCC diwygiedig os yw'n cael ei ddiwygio dros dro oherwydd amgylchiadau eithriadol. Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar y cyd yn yr hydref i gynnal seminarau ar baratoi cynlluniau, ymgynghori, tystiolaeth ac archwiliadau, a bydd y seminarau hynny'n gyfle inni i gyd rannau syniadau ar sut orau i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Er mwyn eich helpu i baratoi CDLlau, ni fydd yn ofynnol ichi gyflwyno Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) eleni. Rwy'n annog ACLlau yn gryf i barhau i gasglu data, oherwydd y bydd hynny o gymorth wrth lunio a llywio polisïau a'r gwaith o ddatblygu'r cynllun. Os yw ACLlau am gyhoeddi AMB, mae rhwydd hynt iddynt wneud hynny wrth gwrs. Byddaf yn disgwyl i'r AMB ffurfiol nesaf gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2021.

**Polisi Cynllunio Cymru**

Cafodd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) ei ailddrafftio'n eang ddiwedd 2018, ar sail egwyddorion creu lleoedd. Mae'n nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei weld mewn cynlluniau datblygu ac mae'n ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Rydym wedi cynnal ymarfer cyfeirio a fydd yn dangos pa agweddau ar PCC sy'n arbennig o berthnasol i'r adferiad ar ôl Covid-19 ac ar gyfer ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur. Bydd polisïau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cynnig os bydd angen. Rwyf hefyd am lansio Siarter Creu Lleoedd Cymru cyn gynted â phosibl. Rwy'n ddiolchgar i'r sefydliadau hynny sydd wedi llofnodi'r Siarter eisoes. Mae'n bwysig nad ydym yn colli momentwm ar y fenter hynod bwysig hon y bwriedir iddi wella ansawdd datblygiadau yng Nghymru a hyrwyddo mwy o ran i'r gymuned yn y system gynllunio.

Yn olaf, hoffwn ddatgan ar ddu a gwyn fy niolch am y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr awdurdodau cynllunio lleol i gynnal y system gynllunio yn lleol yn ystod y cyfnod digynsail hwn. I gydnabod y rhan hanfodol y bydd cynllunio'n ei chwarae wrth helpu'n cymunedau i adfer ar ôl y pandemig, bydd y cynnydd arfaethedig o 20%i ffioedd am geisiadau cynllunio yn dod i rym yn ystod yr haf. Mae'n hanfodol bod y cynnydd yn y ffioedd yn cael ei gadw yng nghyllidebau'r adrannau cynllunio ac na fydd unrhyw ostyngiadau i gyllid corfforaethol yn ei sgil.

Yn Gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government